CYMDEITHAS BOB OWEN
Elusen Gofrestredig Rhif 507948

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

**CYMDEITHAS BOB OWEN**
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn (Awst-Gorffennaf neu Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon i'r Trysorydd

**SWYDDOGION**

*Cadeirydd:*
Dr Rhidian Griffiths
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion

*Ysgrifennydd:*
Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970 623174

*Trysorydd:*
Miss Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre, Bow Street
Ceredigion SY24 5AD
(01970) 820235

*Trefnydd Hysbysebion:*
Gwilym Tudur
Siop y Pethe, Aberystwyth
Ceredigion
(01970) 617120

*Golygydd:*
Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd Ll23 7TA
ebost:tanycastell@yahoo.com
(01678) 540652

*Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:*
Y Swyddogion
Dr Huw Edwards
Dafydd Jones
Dr R. Geraint Gruffydd
Dr E. Wyn James
Dafydd Glyn Lloyd Hughes
Huw Ceiriog Jones
Richard H. Lewis
Maredudd ap Huw
Deian ap Rhisiart

**Y RHIFYN NESAF**

Erthyglau a mân hysbysebion i'r **GOLYGYDD**
**ERBYN MAI 18**

Neilltuo gofod hysbysebu i'r **TREFNYDD HYSBYSEBION**
**ERBYN MAI 18**

Copi o'r hysbyseb i'r **GOLYGYDD**
**ERBYN MAI 21**

Gwasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon
Gwynedd LL55 2BD
Argraffwyr a Chyhoeddwyr
Ffôn: (01286) 674486


# Recordiau 'Llanelly'

**gan William H. Owen, Bangor**

Dwy waith y bûm i ar record. Roeddwn i yn y gynulleidfa pan oedd Robin Williams yn recordio'r *Tri Bob*. Rydw i yng nghanol y criw sy'n chwerthin a chymeradwyo. Tan yn ddiweddar doeddwn i ddim yn siŵr a oedd yr ail record yn bod. Ond rydw i newydd gael benthyca copi ohoni i'w chlywed hi am y tro cyntaf.

A bod yn gwbl onest doeddwn i ddim yn siŵr ai wedi breuddwydio amdani yr oeddwn i. Cofiwn fy mod yn yr Ysgol Uwchradd pan ddaeth y BBC i ddarlledu *Oedfa'r Bore* o gapel Horeb, Dyffryn Ardudwy. Roedd gen i ryw atgof fod cyhoeddiad wedi ei wneud yn fuan wedyn fod recordiad o'r gwasanaeth 'byw' hwnnw ar werth. Ond gan nad oedd trydan yn ein tŷ ni heb sôn am chwaraewr recordiau doedd prynu record heb fedru ei chwarae yn da i ddim!

Yn gynharach eleni mi ges i'r awydd i chwilio am gopi ohoni. Wedi holi drwy gysylltiadau lleol amdani doedd gan neb syniad ble i gael gafael arni. Gan nad oedd ymateb dyma roi hysbyseb yn *Y Casglwr* yng ngwanwyn 2000 yn gofyn a oedd gan rywun yn rhywle copi o record *Oedfa'r Bore* gyda'r Parch John Williams yn pregethu.




*Clawr llwch Record Y Tri Bob*

Yn syth bin daeth neges gan Elwyn Williams o Wrecsam yn dweud ei fod wedi cysylltu â merch John Williams, Rhiannon, yn ochrau'r Wyddgrug. Roedd ganddi gopi. Erbyn deall gan ei brawd Llion, ym Mae Colwyn, yr oedd y record. A thrwy ei gydweithrediad o rydw i wedi llwyddo i wrando arni ac wedi clywed fy hun yn canu efo'r gynulleidfa!

Ond nid dyna'r peth difyrra' ynglŷn â hi. Yr hyn sy'n ddiddorol i mi yw'r enwau sy'n gysylltiedig â'r record. Mae'n ymddangos mai cwmni o Lanelli oedd yn gyfrifol am y recordiad drwy gydweithrediad cwmni cynhyrchu rercordiau yn Llundain. Yn ôl y rhai sy'n cofio'r cyfnod roedd Welsh Recordings, Marble Hall Road, Llanelly, Carms yn recordio'r gwasanaethau 'byw' oddi ar y radio ac yn cynnig i'r cynulleidfaoedd eu prynu. Ar label y record mae enw'r cwmni oedd yn cynhyrchu'r recordiau – Sound News Pro-ductions, 10 Clifford Street, New Bond Street, London W.1.

Ar y bocs am y recordiau mae enw R. Cerwyn Davies o Gasllwchwr. Mae'n ddigon posibl ei fod yn gysylltiedig â'r cwmni o Lanelli gan fod rhyw gymaint o'i lawysgrifen ar ganol record fechan oedd yn rhan o'r pecyn.

Yn hyn sy'n fy ngoglais i yw beth a ddigwyddodd i Welsh Recordings ac i ble'r aeth yr holl recordiau a wnaed o *Oedfa'r Bore* a *Chaniadaeth y Cysegr* mewn gwahanol rannau o'r wlad yn niwedd y pumdegau? Rydw i'n dychmygu fod pentyrrau ohonyn nhw wedi eu taflu i domen sbwriel. Neu a oes rhywun yn rhywle yn cadw un copi o bob un dim ond er mwyn cofio am y cyfnod pan oedd pregethu a chaniadaeth y cysegr yn uchel eu parch?

Verey David: *Shell Guide to Mid-Wales* (Trefaldwyn, Maesyfed a Brycheiniog). Siaced lwch gan John Piper, 1960. Cyflwr fel newydd. PRIN. **£25**.
J. Jones (Myrddin Fardd): *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon, eu Hystyr a'u Hanes*. Cyflwr bregus. **£4.50**.
Alfred Theodore Arber-Cooke: *Pages from the History of Llandovery*. Cyf 1. 1975. **£20**.
D. Lloyd (Dewi Llwyd): *Hanes Cwmaman, Aberaman* 1913. Wedi staenio. **£5**.
John Davies (Isfryn): *Yr Hên Lwybrau*. 1947. (Cynnwys hanesion am lwybrau – Ystrad Meurig, Swyddffynnon a Thy'n -y-graig). **£5**.
Evan Jones: *Cerdded Hen Ffeiriau* (sef Ffeiriau Ceredigion) 1972. **£7.50**

Cludiant yn ychwanegol. Cysyllter â J. Meurig Jones, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Ceredigion. Ffôn: (01974) 831582.

---

*Cambrian Minstrelsie*, (Alawon Gwalia) ed. Joseph Parry, words by Dewi Môn. 1893. 6 chyfrol. **£65**.

## Ar Werth

*The English Theatre in Wales*. Cecil Price. 1948. **£12**.
*Immortal Sails*. A story of a Welsh port and some of its ships. Henry Hughes. **£15**.
*Living in Croesor*. Philip O'Connor. 1952. **£5**.
*Natural History of Anglesey*. ed. W. Eifion Jones. **£15**.
*Cofiant y Gohebydd Richard Griffith*. 1905. **£5**.
*Hynodion hen bregethwyr Cymru* (Cyfres boblogaidd yr Aelwyd. Wrecsam. dd. **£2**.
*Oriau Diddan*. W. Penllyn Jones. Colwyn. **£1**.
*Y Dieithryn, Albert Camus*. Trosiad Bruce Griffiths. 1972. **£2**.
*Y Llais yn ôl*, W.H. Reese. 1982 . **£2**.
*Sul, Gŵyl a Gwaith*. Catrin Parri Huws. **£2**.
Ôl-rifynnau o'r cylchgrawn *Golwg a Barn*. Pris i'w drafod
O ddiddordeb i Annibynwyr: Sypyn o bapurau printiedig a llawysgrifau yn ymwneud ag achosion yr Annibynwyr Cymraeg yn Lloegr.

Cysyllter â Mari Ellis.
Ffôn: (01970) 617171.

---

*Aros Mae*, Gwynfor Evans: £4;
*Gwerin-eiriau Maldwyn*, B. Griffiths (gol.): £2;
*Coelion Cymru*, Evan Issac: £3.50;
*Iaith Sir Fôn*, Bedwyr L. Jones: £2.40
*Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg I*, S. Lewis: £2.50;
*Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1400*, Thomas Parry: £5.00;
*Two Centuries of Anglesey Schools*, David A. Pretty: £10.00;
*Telynegion*, R. Silyn Roberts: £5.00;
*Me and My Bike*, Dylan Thomas: £12.00;
*Llenyddiaeth y Cymry I*, Gwyn Thomas: £4.00;
*Llenyddiaeth y Cymry 2*, R. Geraint Gruffydd: £4.00.

Cost cludiant yn ychw[illegible]
Ymholer â B. Griffiths.
Ffôn: (01248) [illegible]1987.